

ADRODDIAD BLYNYDDOL TELEDU CYLCH CAEEDIG 2016 - 2017



©TCC Conwy yn derbyn eu hachrediad gan Tony Porter, Comisiynydd Camerâu Gwyliadwriaeth

CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cael ei gyhoeddi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â Chod Ymarfer TCC ar gyfer gweithredu a rheoli'r system.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Heddlu Gogledd Cymru a sefydliadau busnes yn parhau i fod o'r farn y bydd TCC yn lleihau achosion o drosedd ac anhrefn cyhoeddus lle mae camerâu naill ai wedi'u gosod neu yn cael eu cyflwyno. Mae hefyd yn cynorthwyo i reoli traffig ac yn gwella hyder y gymuned, gan greu amgylchedd mwy diogel i drigolion, masnachwyr, twristiaid ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Dyma brif amcanion y System TCC:

- Cynorthwyo pan fo pryder am drosedd ac i ganfod ac atal troseddau.
- Hwyluso'r gwaith o ddal ac erlyn troseddwr mewn perthynas â throedd a threfn gyhoeddus.
- Rhoi mwy o ymdeimlad o ddiogelwch a sicrwydd i drigolion, ymwelwyr a busnesau.
- Gwella diogelwch cymunedol, rhoi hwb i'r economi ac annog mwy o ddefnydd o ganol y dref/canolfan siopa, ac ati.
- Cynorthwyo'r Awdurdod Lleol yn ei swyddogaeth gorfodi a rheoleiddio.
(Yn benodol mewn perthynas â Chanlyniad 2 a 6 Cynllun Corfforaethol CBSC 2012-2017)
- Cynorthwyo i reoli traffig.

Y CAMERÂU

Mae'r System yn cynnwys 113 o gamerâu (wedi lleihau o 1 ers yr adroddiad diwethaf). Mae 1 camera man cyhoeddus wedi cael ei symud, sef C76 Ffordd Lansdowne. Cafodd ei ddigomisiynu oherwydd y gwaith o adeiladu swyddfeydd newydd y Cyngor. Fodd bynnag, rydym wedi gwarantu y bydd mwy o deledu cylch cyfyng o amgylch ardal 'Coed Pella' ar ôl i'r adeilad gael ei gwblhau. Mae union leoliad camerâu ar gael ar ein Gwefan Gyhoeddus, gweler yr hyperddolen isod.

[Lleoliadau Camerâu TCC - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

Mae gwarant a thechnoleg analog pob camera mewn man cyhoeddus bellach wedi dod i ben. I'r perwyl hwn mae achos busnes Gwario i Arbed yn cael ei baratoi i wella'r gwasanaeth. Cafodd cyflwyniadau i Gyngorau Tref a Chymuned am gyfraniadau cyllid tuag at y Diweddariad Digidol Manylder Uwch Diwifr eu cwblhau ym mis Tachwedd 2016, ac mae £82,000 o gyllid wedi cael ei addo hyd yn hyn. Rydym yn gobeithio y bydd y cyllid yma sydd

wedi'i addo yn cynorthwyo i sicrhau'r prosiect ac fe fydd proses dendro yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd 2017 a bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud yn y misoedd canlynol.

Ym Medi 2016 cwblhawyd adolygiad blynyddol llawn o leoliadau camerâu a'r cyfiawnhad am eu gosod fel yr argymhellwyd gan y Cod Ymarfer Camerâu Gwylidwriaeth newydd 2013 [Surveillance camera code of practice - Publications - GOV.UK](http://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/47112/Surveillance_camera_code_of_practice_-_Publications_-_GOV.UK)

Ar gyfer yr adolygiad, casglodd Cyngor Conwy dystiolaeth ar 8 o ffactorau i gynorthwyo i benderfynu a yw pob camera unigol yn angenrheidiol ac yn gymesur, a rhoddwyd y canlyniadau mewn matrices sgorio oedd wedyn yn dangos pa gamerâu oedd yn sgorio isaf. Dyma'r ffactorau a ystyriwyd:-

- Heddlu Gogledd Cymru Trosedd mewn Ardal gyda Chamerâu Teledu Cylch Caeëdig
- Digwyddiadau Teledu Cylch Caeëdig
- Addas i'r pwrpas
- Rhentu ffibr a chostau eraill ynghlwm â'u cynnal
- Diogelu'r llinell welediad ar gyfer y dyfodol e.e. a yw lleoliad y camera yn addas i ddefnyddio technoleg newydd diwifr.
- Cyfraniadau ariannol
- Barn y Gweithredwr
- Tawelwch meddwl i'r cyhoedd

Y 6 camera canlynol a sgoriodd isaf ac maent ar hyn o bryd o dan adolygiad pellach ar gyfer 2017/18 gyda rhai'n cael eu hargymhell ar gyfer eu digomisiynu gan mai ychydig o dystiolaeth a ddangosir o angen dybryd.

Camerâu sy'n sgorio isaf ac mewn perygl o gael eu digomisiynu	
C57 Llandudno, Ffordd Elizabeth	Arolwg Cyhoeddus Chwefror 2016. Canlyniadau yn amhendant oherwydd ymateb gwael. Parhau i adolygu'r camera. (2 ^{ail} flwyddyn)
C91 Bae Colwyn, Rhiw Road	Dan adolygiad (2 ^{ail} flwyddyn)
C10 Conwy, Lancaster Square	Dan adolygiad (2 ^{ail} flwyddyn)
C17 Conwy, Maes Parcio Benarth Road	Dan adolygiad (2 ^{ail} flwyddyn)
C68 Mochdre, Ffordd y Maer	Dan adolygiad (2 ^{ail} flwyddyn)
C27 Canolfan Fusnes Cyffordd Llandudno	Argymhell digomisiynu neu newid y pwrpas i ddiogelu'r adeilad (2 ^{ail} flwyddyn)
Camera a ddigomisiynwyd	
C76 Ffordd Lansdowne, Bae Colwyn	Polyn a'r camera wedi cael eu symud oherwydd y gwaith o adeiladu adeilad Coed Pella ym Mae Colwyn
Camerâu sydd ddim bellach mewn perygl	
C18 Cob Conwy	Ddim yn cael ei adolygu bellach

C03 Penmaenmawr, Esplanade.	Ddim yn cael ei adolygu bellach
C62 Llandrillo-yn-Rhos, Pwll padlo	Ddim yn cael ei adolygu bellach
C63 Rhodfa Penrhyn, Llandrillo-yn-Rhos	Ddim yn cael ei adolygu bellach
C72 a 73 Mochdre, Bron y Nant	Ddim yn cael ei adolygu bellach. Mae'r camerâu yn darparu lluniau o dystiolaeth i warchod 2 depo Cyngor, mae rhan o'r cyllid ar eu cyfer wedi cael ei sicrhau gan yr adran Ailgylchu.
C23 Deganwy	Ddim yn cael ei adolygu bellach
C101 Hen Golwyn – Min Y Don	Ddim yn cael ei adolygu bellach
C110 Abergele, Threeways	Ddim yn cael ei adolygu bellach
C111 Abergele, Stryd y Dŵr	Ddim yn cael ei adolygu bellach
C104 & 105 Hen Golwyn, Peulwys	Cwblhawyd Arolwg Cyhoeddus ym mis Chwefror 2016. Daeth yr arolwg i'r casgliad bod y camerâu yn rhoi sicrwydd i bobl yn yr ardal. Mae Cartrefi Conwy yn ystyried cais am gyllid i ddiweddarau'r camerâu.

TCC SYMUDOL

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu grŵp o gamerâu y gellid eu gosod yn gyflym. Gall y camerâu hyn gael eu gosod mewn ardaloedd problemus neu ardaloedd lle nad oes TCC man cyhoeddus ar gael. Mae pob cais yn amodol ar gwrdd â meini prawf a chaiff y weithred o osod y camerâu ei awdurdodi drwy'r Grŵp Tasg Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

YR YSTAFELL REOLI

Gwnaed ychydig o waith uwchraddio yn yr Ystafell Reoli ym mis Awst 2016 sydd yn golygu y gallwn ddefnyddio ein camerâu Manylder Uwch cyntaf (ar hyfer hyd at 10 camera). Fe fydd angen i ni wneud rhagor o waith uwchraddio ar draws y system wrth i ni ymestyn ein rhwydwaith camerâu manylder uwch a newid y dechnoleg analog.

Mae Ystafell Reoli'r TCC hefyd wedi'i chynnwys yn y Strategaeth Swyddfa bresennol a bydd yn cael ei adleoli ym mis Tachwedd 2018. Bydd Ystafell Reoli TCC newydd yn cael ei adeiladu at safon angenrheidiol ar gyfer Canolfan Monitro Larymau (ARC) Cat II. Byddant yn cynorthwyo i sicrhau bod y Gwasanaeth TCC yn addas at y dyfodol drwy ein galluogi i gynyddu ein hincwm drwy fod yn ganolfan monitro ar gyfer larymau adeiladau.

STAFFIO

Ar ôl ymgynghoriad staff llawn ym mis Mawrth 2016, cafodd y lefelau staffio eu lleihau o 8 swydd gweithredwr llawn amser i 5 swydd gweithredwr rhan-amser o 28awr yr un gyda'r rheolwr llawn amser yn parhau. Roedd y cyfrifiadau yn seiliedig ar gyflawni'r arbedion gorau posibl a chynnal gwasanaeth bob diwrnod o'r flwyddyn gyda'r lefelau staffio gofynnol. Mae

hyn wedi bod yn llwyddiannus, ond bydd y gwasanaeth yn parhau mewn risg os bydd salwch tymor hir neu amgylchiadau tebyg.

Mae'r holl staff wedi eu trwyddedu gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) ac maent wedi pasio Gwriad Personél heb fod trwy'r Heddlu, roedd hyn yn ofyniad i'n galluogi i barhau i ddefnyddio radio tonnau awyr Heddlu Gogledd Cymru.

NEWYDDION

- TCC Conwy oedd un o'r ystafelloedd rheoli mannau cyhoeddus cyntaf yn genedlaethol i gymhwyso ar gyfer Ardystiad Cydymffurfiaeth Comisiynwyr Camerâu Gwylidwriaeth.



- Bu TCC Conwy yn llwyddiannus unwaith eto yng nghynhadledd flynyddol Grŵp Defnyddwyr TCC, ac fe wnaethant ennill Gwobr Cydnabod Rhagoriaeth Tîm ar gyfer 2016 a Rheoli ac Arloesedd TCC 2016.



- Mae Adran TCC Mannau Agored wedi ennill Statws Un Pwynt Cyswllt gan SLT ar gyfer yr holl TCC a Systemau Gwylidwriaeth o dan reolaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, bydd hyn yn golygu cynnal rhaglen lawn o waith i sicrhau y bydd cynlluniau adeiladu, camerâu sy'n cael gwisgo ac ati yn cael eu rheoli i'r safon gywir, gan sicrhau y cydymffurfir â Diogelu Data.

YSTADEGAU 2016 - 2017

Mae'r ystadegau canlynol yn rhoi manylion nifer y digwyddiadau a gofnodwyd gan Weithredwyr TCC. Roedd yna **7049** o ddigwyddiadau TCC y llynedd, **861** o'r rhain yn ymwneud â monitro safle. Fodd bynnag, dylid nodi mai digwyddiadau TCC yw'r rhain ac nid o reidrwydd troseddau a gofnodwyd.




e.e. mae gweithredwr yn monitro ci yn baeddu ac yn pasio'r wybodaeth i Swyddog Gorfodaeth Amgylcheddol, mae Defnyddiwr Cyswllt Radio Gwarchod Tafarndai yn gofyn i TCC fonitro gŵr meddw, mae TCC yn gofyn i'r heddlu fynychu a rhoddir cyngor addas gan swyddogion.

Fe sylwch ar y Siart Tueddiad Cofnod Digwyddiadau yn ôl blwyddyn bod yr Ystafell Reoli yn mynd yn brysurach flwyddyn ar ôl blwyddyn er ein bod yn gweithredu gyda thîm llai o weithredwyr, ac mae hyn yn glod iddynt ac yn un o'r rhesymau eu bod wedi ennill Tîm y Flwyddyn ddwy flynedd yn olynol.

Melyn = Monitro safle

Ardal	Nifer y Digwyddiadau
Llandudno	3266
Bae Colwyn	1766
Cyffordd Llandudno	517
Hen Golwyn	253
Conwy	251
Llandrillo-yn-Rhos	247
Abergele	175
Penmaenmawr	85
Tywyn	74
Mochdre	70
Bae Cinmel	69
Pensarn	63
TCC	57
Deganwy	42
Llysfaen	27
Glan Conwy	16

15 Math o Ddigwyddiad	Digwyddiadau
Patrôl Golau Gwyn	390
Cyhoeddi Codau ar gyfer Parcio Bysiau	327
Stwrllud / Gwrthgymdeithasol	262
Amgylchiadau Amheus	225
Monitro Unigolion Hysbys/Amheus	225
Ymddygiad gwrthgymdeithasol	217
Monitro Pobl	201
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	190
Domestig	188
Goruchwyllo am gerbyd	172
Monitro Man Problemus am Faw Cŵn	169
Plentyn Coll (ar goll o gartref)	159
Pryder am ddiogelwch	146
Larwm yn canu	144
Person y bu chwilio amdanynt	143



Camerâu (40 Camera Prysaraf)	
Aml gamerâu	797
55 Safle Bysiau Builders Street	513
Dim	330
056 Parc Sglefrio/Builder Street	283
083 Ffordd yr Orsaf (gwaelod)	224
082 Ffordd yr Orsaf (Top)	218
040 Mostyn Street/Tafarn y Carlton	187
050 Broadway Boulevard	170
095 Ffordd Abergele/Gerddi Meirion	162
041 Mostyn Street/Natwest	143
031 Parc Cae Derw	135
036 Upper Mostyn Street	130
049 Mostyn Champneys/Siop B&Q	114
042 Lloyd Street/Madoc Street	114
045 Gerddi'r North Western	113
046 Vaughan Street/Gorsaf Reilffordd	112
065 Rhos Road	109
100 Tafarn y Plough	98
034 Gloddaeth Avenue The Palladium	97
039 Y Senotaff Traeth y Gogledd	92
093 Greenfield Road/Travelodge	89
043 Mostyn Street/M&S	83
033 Gloddaeth Avenue Llandudno	80
028 Gorsaf Reilffordd Cyffordd	76
092 Ffordd Abergele/Greenfield Road	73
114 Croesffordd Tywyn	73
088 Seaview Road/Bayview Road	72
089 Eglwys St Pauls / Ffordd Abergele	70
044 Trinity Square/Banc Lloyds	67
030 Maes Parcio Maelgwyn	65
053 Craig y Don	65
102 Cefn Road/Hen Golwyn	63
058 Siopau Ffordd Las	59
075 Kings Road/West End	59
037 Gwesty'r Empire Upper Mostyn	56
086 Seaview Road	55
113 Cylchfan Pensarn	54
091 Rhiw Road, Bae Colwyn	53
128 Camerâu 3G	52

Ystafell Reoli



CYLLID

Costau Blynyddol TCC i bob Camera 2016-17

(i bwrpas ailwefrio) yw £4393

2016/17	Y FLWYDDYN HYD YN HYN		
	Cyllideb	Cost	Amryw
TCC	£	£	£
CYFANSWM GWEITHWYR	193,404	322,700	129,296
CYFANSWM ADEILADAU	850	1,377	527
CYFANSWM CLUDIANT	250	149	-101
CYFANSWM CYFLENWADAU	180,270	201,584	21,314
GWASANAETH AU CEFNOGI	1,200	1,463	263
CYFANSWM INCWM	-104,040	-73,012	31,028
CYFANSWM TCC	271,934	454,261	182,327